# SIR PENFRO

Mae **SIR PENFRO** yn rhoi rhybudd ei fod yn bwriadu gwneud y Gorchymyn canlynol o dan adran 82, 83, 84 a 124 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 fel y'i diwygiwyd, fel a ganlyn:

**GORCHYMYN UNO SIR PENFRO (FFYRDD AMRYWIOL) (TERFYNAU CYFLYMDER) 2023 (GWELLIANT RHIF 3) GORCHYMYN 2025**

Trwy ddiwygio Gorchymyn Uno Sir Benfro (Ffyrdd Amrywiol) (Terfynau Cyflymder) 2023, Effaith y cynigion fydd y canlynol:

a) Cyflwyno terfynau cyflymder newydd, diwygio a/neu ddiddymu terfynau cyflymder presennol ar y darnau hynny o'r ffordd a restrir yn yr Atodlenni i'r hysbysiad hwn.
b) Disodli'r holl Atodlenni Map perthnasol gyda diwygiadau newydd.

Gellir archwilio copi o'r Gorchymyn arfaethedig y mae'n ymwneud ag ef, ynghyd â datganiad o resymau'r Cyngor dros gynnig gwneud y Gorchymyn, yn rhad ac am ddim yn ystod oriau swyddfa arferol yn Neuadd y Sir, Freemens Way, Hwlffordd, Sir Benfro SA61 1TP.

Fel arall, gellir ei weld ar y wefan ganlynol: www.pembrokeshire.gov.uk/TRO-public-notices.

Os ydych yn dymuno gwrthwynebu'r Gorchymyn arfaethedig, dylech anfon y seiliau dros eich gwrthwynebiad naill ai drwy lenwi'r ffurflen adborth ar-lein, neu, yn ysgrifenedig at y sawl sydd wedi llofnodi isod erbyn 14ed diwrnod o fis Mai 2025. Dylech Ddyfynnu: **AMAL 2023-A3-25**

Dyddiedig y 23fed diwrnod hwn o Ebrill 2025

Sarah Edwards
Pennaeth Dros Dro Seilwaith a’r Amgylchedd
Cyngor Sir Penfro
Neuadd y Sir
Hwlffordd

## ATODLEN 1
## TERFYN CYFLYMDER O 30 MYA

| Cyf. | Lleoliad a Ffordd | | Hyd y ffordd |
|---|---|---|---|
| | | | |
| **1.01.0** | **Broadway** | | |
| | Ffordd y B4341 | | O bwynt 60 metr i'r gogledd o'r gyffordd â ffordd yr C3130 i bwynt 180 metr i'r dwyrain o Gilton Lane. |
| | Ffordd yr C3130 | | O'i chyffordd â ffordd y B4341 yn ymestyn am 30 metr i'r gorllewin. |
| | Ffordd yr C3024 i Tiers Cross (Gilton Lane) | | O'r gyffordd â ffordd y B4341 i'r de am 20 metr. |
| | Grassholm Place | | Ar ei hyd cyfan |
| | Eldergrove | | Ar ei hyd cyfan |

**ATODLEN 2**
**TERFYN CYFLYMDER O 40 MYA**

| Cyf. | Lleoliad a Ffordd | | Hyd y ffordd |
|---|---|---|---|
| | | | |
| **2.01.0** | **GUMFRESTON I SAGESTON** | | |
| | Ffordd y B4318 | | O bwynt 50 metr i'r gorllewin o'r gyffordd â ffordd yr C3040 i bwynt 420 metr i'r dwyrain o'r gyffordd â ffordd yr C3075 i Sain Fflwrens. |
| | Ffordd yr C3040 | | O'r gyffordd â ffordd y B4318 i bwynt 45 metr i'r de. |
| | Ffordd yr C3075 | | O'r gyffordd â ffordd y B4318 i gyfeiriad deheuol am 28 metr. |
| **2.02.0** | **CRANE CROSS** | | |
| | Ffordd yr A478 | | O bwynt 305 metr i'r gogledd o'r gyffordd â Moreton Close i bwynt 87 metr i'r de o'r gyffordd â Heol Sandyhill. |
| | Ffordd yr C3076 | | O'r gyffordd â ffordd yr A478 sy'n ymestyn i gyfeiriad gogledd-ddwyreiniol i bwynt 112 metr i'r de-orllewin o'r gyffordd â Sandy Hill Park. |
| **2.03.0** | **ARBERTH** | | |
| | Ffordd y B4314 – Cox Hill | | O bwynt 145 metr i'r gorllewin o Highland Park i bwynt 175 metr i'r de-orllewin o gyffordd y B4314 â chefnffordd yr A40 (Cylchfan Robeston Wathen) |
| **2.04.0** | **NASH FINGERPOST** | | |
| | Ffordd yr A4075 | | O bwynt 225 metr i'r de-orllewin o'r gyffordd â chefnffordd yr A477. |
| **2.05.0** | **PANTEG** | | |
| | Ffordd yr A487 Abergwaun i Dyddewi | | O bwynt 90 metr i'r de-orllewin o'r trac rhwng eiddo o'r enw Hafan Deg a rhif 6 Trem-y-Garn, i bwynt 80 metr i'r gogledd-ddwyrain o'r trac sy'n arwain at y gwaith trin carthion gyferbyn â Chapel yr Annibynwyr Panteg. |
| **2.06.0** | **POYSTON CROSS** | | |
| | Ffordd y B4329 | | O bwynt 260 metr i'r gogledd o linell ganol y gyffordd â Cross Lane i gyfeiriad y gogledd i bwynt 95 metr i'r gogledd-ddwyrain o'r gyffordd â ffordd yr C3002. |
| | Ffordd yr C3087 | | O'r gyffordd â ffordd y B4329 i bwynt 200 metr i'r gorllewin. |
| **2.07.0** | **Y SGWÂR** | | |
| | Ffordd yr A487 – Abergwaun i Dyddewi | | O bwynt 448 metr i'r gorllewin o'r gyffordd â ffordd yr U3084 sy'n arwain i Lanon ym Mesur-y-dorth, i bwynt 65 metr i'r dwyrain o'r gyffordd â ffordd yr U3078, sy'n arwain i Fathri yn Y Sgwâr. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Ffordd yr U3078 – Y Sgwâr i Fathri | | O'r gyffordd â ffordd yr A487, i'r gogledd-ddwyrain am 50 metr |
| | Ffordd yr U3084 – Mesur-y-dorth i Lanon | | O'r gyffordd â ffordd yr A487, i'r gogledd am 100 metr. |
| | Ffordd yr C3052 – Mesur-y-dorth i Fferm Penysgwarne | | O'r gyffordd â ffordd yr A487 i'r de am 30 metr |
| | | | |

**ATODLEN 3**
**TERFYN CYFLYMDER O 50 MYA**

| **Cyf.** | **Lleoliad a Ffordd** | | **Hyd y ffordd** |
|---|---|---|---|
| | | | |
| **3.01.0** | **HUNDLETON** | | |
| | Ffordd y B4320 Hundleton i'w chyffordd â ffordd yr C3101 Wallaston Green | | O'r gyffordd â ffordd yr C3183 o Hundleton i bwynt 175 metr i'r dwyrain o'i chyffordd â ffordd yr C3101 i Wallaston Cross. |
| | Ffordd yr C3183 | | O bwynt 80 metr i'r gogledd-orllewin o'r gyffordd â ffordd yr C3033, sy'n ymestyn i'r gorllewin i'r gyffordd â ffordd y B4320 o Hundleton. |
| | Ffordd yr C3003 – Redford Hill | | O linell ganol y gyffordd â ffordd y B4320, gan ymestyn am 30 metr i'r de-orllewin. |
| **3.02.0** | **PENNYBRIDGE** | | |
| | Ffordd yr A4075 – Holyland Road i gefnffordd yr A477 | | O bwynt 108 metr i'r dwyrain o'r gyffordd ag East Lane trwodd i bwynt 225 metr i'r gorllewin o'r gyffordd â chefnffordd yr A477 ym Mynegbost Nash. |
| | Golden Lane | | O'r gyffordd â ffordd yr A4075 i bwynt 60 metr i'r gogledd-orllewin. |
| | Dill Road | | O'r gyffordd â ffordd yr A4075 i bwynt 30 metr i'r dwyrain. |

**GORCHYMYN CYFUNO (FFYRDD AMRYWIOL) (TERFYNAU CYFLYMDER) (DIWYGIAD RHIF 3) SIR BENFRO 2025**

Datganiad o'r Rhesymau:

**ATODLEN 1**
**TERFYN CYFLYMDER O 30 MYA**

| 1.01.0 | FFORDD Y B4341 BROADWAY |
|---|---|
| | Mae'r cynigion yn cael eu datblygu yn unol ag adeiladu troedffyrdd, mesurau gostegu traffig, ac adolygiad o'r terfynau cyflymder ar gyfer y ffyrdd hyn. Bu'r adolygiad yn ystyried hanes gwrthdrawiadau, data arolwg cyflymder, geometreg newydd y ffordd, a chynnydd mewn datblygiad preswyl. Daeth i'r casgliad y dylid gostwng y terfyn cyflymder presennol i 30 mya. |

**ATODLEN 2**
**TERFYN CYFLYMDER O 40 MYA**

| 2.01.0 | O GUMFRESTON I SAGESTON |
|---|---|
| | Mae adolygiad o'r terfyn cyflymder wedi'i gynnal ar y darn hwn o'r ffordd. Bu'r adolygiad yn ystyried hanes gwrthdrawiadau, data arolwg cyflymder, geometreg y ffordd, a ffactorau eraill gan gynnwys cyffyrdd a chilfannau cerbydau. Daeth yr adolygiad i'r casgliad y dylid gostwng y terfyn presennol i 40 mya er mwyn sicrhau bod modd i gerbydau gwneud symudiadau troi o nifer o fynedfeydd, cyffyrdd a thraffig trwodd. |

| 2.02.0 | CRANE CROSS |
|---|---|
| | Mae adolygiad o'r terfyn cyflymder wedi'i gynnal ar y darn hwn o'r ffordd.<br>Bu'r adolygiad yn ystyried hanes gwrthdrawiadau, data arolwg cyflymder, maint y traffig, dosbarthiad cerbydau, geometreg y ffordd, a ffactorau eraill gan gynnwys cyffyrdd ac amwynderau lleol. Daeth yr adolygiad i'r casgliad y dylid gostwng y terfyn presennol o 50 mya i 40 mya er mwyn cynnal dosbarthiad cyflymder diogel a chyson ar hyd y darn hwn o ffordd yr A478, a sicrhau bod pob symudiad troi o'r mynedfeydd, cyffyrdd a thraffig trwodd yn ddiogel. |

| 2.03.0 | ARBERTH - COX HILL |
|---|---|
| | Mae adolygiad o'r terfyn cyflymder wedi'i gynnal ar gyfer y darn hwn o'r ffordd. Mae'n cynnig ymestyn y terfyn 40 mya presennol hyd at y parth 30 mya ar bwys Cylchfan Robeston Wathen. Cadarnhaodd yr adolygiad, oherwydd geometreg y ffordd, y ffaith bod y ffordd yn gulach ar y darn hwn o'r ffordd, a bod nifer o fynedfeydd â gwelededd gwael, y dylid gostwng y terfyn cyflymder cenedlaethol presennol i 40 mya. |

| 2.04.0 | **FFORDD YR A4075 MYNEGBOST NASH** |
|---|---|
| | Mae’r cynnig hwn yn cadarnhau’r terfyn 40 mya sydd wedi’i arwyddo, a gyflwynwyd fel rhan o’r gwelliannau a wnaed i Fynegbost Nash, a’r gwaith o osod goleuadau traffig a wnaed gan Asiantau Cefnffyrdd De Cymru. |

| 2.05.0 | **FFORDD YR A487 PANT-TEG** |
|---|---|
| | Mae adolygiad o’r terfyn cyflymder wedi’i gynnal ar y darn hwn o’r ffordd yn dilyn sylwadau gan drigolion. Mae Pant-teg yn anheddiad sy’n ymestyn ar hyd ymyl y ffordd â nifer o fynedfeydd, mân gyffyrdd ac amwynderau. Bu’r adolygiad yn ystyried hanes gwrthdrawiadau, data arolwg cyflymder, maint y traffig, dosbarthiad cerbydau, geometreg y ffordd, a ffactorau eraill gan gynnwys cyffyrdd ac amwynderau lleol.<br>Daeth yr adolygiad i’r casgliad y dylid gostwng y terfyn presennol i 40 mya er mwyn cynnal dosbarthiad cyflymder diogel a chyson ar hyd y darn hwn o ffordd yr A487. |

| 2.06.0 | **FFORDD Y B4329 POYSTON CROSS** |
|---|---|
| | Mae adolygiad o’r terfyn cyflymder wedi’i gynnal ar gyfer y darn hwn o’r ffordd. Mae’n cynnig ymestyn y terfyn 40 mya presennol o Crundale i’r tu hwnt i ffiniau Poyston Cross. Cadarnhaodd yr adolygiad, oherwydd geometreg y ffordd, y ffaith bod y ffordd yn gulach ar y darn hwn o’r ffordd, a bod nifer o fynedfeydd â gwelededd gwael, y dylid gostwng y terfyn cyflymder cenedlaethol presennol i 40 mya. |

| 2.07.0 | **FFORDD YR A487 Y SGWÂR** |
|---|---|
| | Mae adolygiad o’r terfyn cyflymder wedi’i gynnal ar y darn hwn o’r ffordd.<br>Bu’r adolygiad yn ystyried hanes gwrthdrawiadau, data arolwg cyflymder, maint y traffig, dosbarthiad cerbydau, geometreg y ffordd, a ffactorau eraill gan gynnwys cyffyrdd ac amwynderau lleol. Daeth yr adolygiad i’r casgliad y dylid gostwng y terfyn presennol o 50 mya i 40 mya er mwyn cynnal dosbarthiad cyflymder diogel a chyson ar hyd y darn hwn o ffordd yr A487, a sicrhau bod pob symudiad troi o’r mynedfeydd, cyffyrdd a thraffig trwodd yn ddiogel. |

## ATODLEN 3
## TERFYN CYFLYMDER O 50 MYA

| 3.01.0 | **FFORDD Y B4320 HUNDLETON** |
|---|---|
| | Mae adolygiad o’r terfyn cyflymder wedi’i gynnal ar y darn hwn o’r ffordd. Bu’r adolygiad yn ystyried hanes gwrthdrawiadau, data arolwg cyflymder, maint y traffig, |

| | |
|---|---|
| | dosbarthiad cerbydau, geometreg y ffordd, a ffactorau eraill gan gynnwys cyffyrdd a chilfannau cerbydau. Daeth yr adolygiad i'r casgliad y dylid gostwng y terfyn presennol o 50 mya i 40 mya er mwyn cynnal dosbarthiad cyflymder diogel a chyson ar hyd y darn hwn o ffordd y B4320. |

| **3.02.0** | **FFORDD YR A4075 PENNYBRIDGE** |
|---|---|
| | Mae adolygiad o'r terfyn cyflymder wedi'i gynnal ar y darn hwn o'r ffordd. Bu'r adolygiad yn ystyried hanes gwrthdrawiadau, data arolwg cyflymder, maint y traffig, dosbarthiad cerbydau, geometreg y ffordd, a ffactorau eraill gan gynnwys cyffyrdd a chilfannau cerbydau. Daeth yr adolygiad i'r casgliad y dylid gostwng y terfyn presennol o 50 mya i 40 mya er mwyn cynnal dosbarthiad cyflymder diogel a chyson ar hyd y darn hwn o ffordd yr A4075. |

## GORCHYMYN UNO SIR PENFRO
## (FFYRDD AMRYWIOL) (TERFYNAU CYFLYMDER) 2023 (GWELLIANT RHIF 3)
## GORCHYMYN 2025
### CYNGOR SIR PENFRO

Mae Cyngor Sir Penfro wrth arfer ei bwerau o dan adrannau 82, 83, 84 a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 fel y diwygiwyd ("y Ddeddf"), a'r holl bwerau galluogi eraill, ac yn dilyn ymgynghoriad *inter alia* â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III o Atodlen 9 i'r Ddeddf, gan hynny yn gwneud y gorchymyn canlynol;

1. Bydd Gorchymyn Cyfuno (Ffyrdd Amrywiol) (Terfynau Cyflymder) Sir Benfro 2023 yn cael ei ddiwygio trwy ddirymu'r Rhestrau Mapiau presennol a'u disodli/mewnosod drwy hyn, fel y nodir isod:

   Adolygiad XXXX 0

   Adolygiad XXXX 0

   Adolygiad XXXX 0

   Adolygiad XXXX 0

   Adolygiad XXXX 0

   Adolygiad XXXX 0

   Adolygiad XXXX 0

2. Daw'r Gorchymyn i rym ar XX XXXX a gellir ei enwi fel Gorchymyn Cyfuno (Ffyrdd Amrywiol) (Terfynau Cyflymder) (Diwygiad Rhif 3) Sir Benfro 2025.

3. Bydd Deddf Dehongli 1978 yn gymwys i'r Gorchymyn hwn gan ei fod yn gymwys ar gyfer dehongli Deddf Seneddol.

4. Heb ragfarn i ddilysrwydd unrhyw beth a wnaed nac i unrhyw atebolrwydd a ysgwyddir mewn perthynas ag unrhyw weithred neu anweithred cyn i'r Gorchymyn hwn ddod i rym, bydd Gorchymyn Cyfuno (Ffyrdd Amrywiol) (Terfynau Cyflymder) (Diwygiad Rhif 3) Sir Benfro 2025 yn dod i rym fel a ganlyn:

### ATODLEN 1
### TERFYN CYFLYMDER O 30 MYA

| **Cyf.** | **Lleoliad a Ffordd** | | **Hyd y ffordd** |
|---|---|---|---|
| | | | |
| **1.01.0** | **Broadway** | | |
| | Ffordd y B4341 | | O bwynt 60 metr i'r gogledd o'r gyffordd â ffordd yr C3130 i bwynt 180 metr i'r dwyrain o Gilton Lane. |
| | Ffordd yr C3130 | | O'i chyffordd â ffordd y B4341 yn ymestyn am 30 metr i'r gorllewin. |
| | Ffordd yr C3024 i Tiers Cross (Gilton Lane) | | O'r gyffordd â ffordd y B4341 i'r de am 20 metr. |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| Grassholm Place | | Ar ei hyd cyfan | |
| | Eldergrove | | Ar ei hyd cyfan |

**ATODLEN 2**

**TERFYN CYFLYMDER O 40 MYA**

| **Cyf.** | **Lleoliad a Ffordd** | | **Hyd y ffordd** |
|---|---|---|---|
| | | | |
| **2.01.0** | **GUMFRESTON I SAGESTON** | | |
| | Ffordd y B4318 | | O bwynt 50 metr i'r gorllewin o'r gyffordd â ffordd yr C3040 i bwynt 420 metr i'r dwyrain o'r gyffordd â ffordd yr C3075 i Sain Fflwrens. |
| | Ffordd yr C3040 | | O'r gyffordd â ffordd y B4318 i bwynt 45 metr i'r de. |
| | Ffordd yr C3075 | | O'r gyffordd â ffordd y B4318 i gyfeiriad deheuol am 28 metr. |
| **2.02.0** | **CRANE CROSS** | | |
| | Ffordd yr A478 | | O bwynt 305 metr i'r gogledd o'r gyffordd â Moreton Close i bwynt 87 metr i'r de o'r gyffordd â Heol Sandyhill. |
| | Ffordd yr C3076 | | O'r gyffordd â ffordd yr A478 sy'n ymestyn i gyfeiriad gogledd-ddwyreiniol i bwynt 112 metr i'r de-orllewin o'r gyffordd â Sandy Hill Park. |
| **2.03.0** | **ARBERTH** | | |
| | Ffordd y B4314 – Cox Hill | | O bwynt 145 metr i'r gorllewin o Highland Park i bwynt 175 metr i'r de-orllewin o gyffordd y B4314 â chefnffordd yr A40 (Cylchfan Robeston Wathen) |
| **2.04.0** | **MYNEGBOST NASH** | | |
| | Ffordd yr A4075 | | O bwynt 225 metr i'r de-orllewin o'r gyffordd â chefnffordd yr A477. |
| **2.05.0** | **PANTEG** | | |
| | Ffordd yr A487 Abergwaun i Dyddewi | | O bwynt 90 metr i'r de-orllewin o'r trac rhwng eiddo o'r enw Hafan Deg a rhif 6 Trem-y-Garn, i bwynt 80 |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | metr i'r gogledd-ddwyrain o'r trac sy'n arwain at y gwaith trin carthion gyferbyn â Chapel yr Annibynwyr Panteg. |
| **2.06.0** | **POYSTON CROSS** | | |
| | Ffordd y B4329 | | O bwynt 260 metr i'r gogledd o linell ganol y gyffordd â Cross Lane i gyfeiriad y gogledd i bwynt 95 metr i'r gogledd-ddwyrain o'r gyffordd â ffordd yr C3002. |
| | Ffordd yr C3087 | | O'r gyffordd â ffordd y B4329 i bwynt 200 metr i'r gorllewin. |
| **2.07.0** | **Y SGWÂR** | | |
| | Ffordd yr A487 – Abergwaun i Dyddewi | | O bwynt 448 metr i'r gorllewin o'r gyffordd â ffordd yr U3084 sy'n arwain i Lanon ym Mesur-y-dorth, i bwynt 65 metr i'r dwyrain o'r gyffordd â ffordd yr U3078, sy'n arwain i Fathri yn Y Sgwâr. |
| | Ffordd yr U3078 – Y Sgwâr i Fathri | | O'r gyffordd â ffordd yr A487, i'r gogledd-ddwyrain am 50 metr |
| | Ffordd yr U3084 – Mesur-y-dorth i Lanon | | O'r gyffordd â ffordd yr A487, i'r gogledd am 100 metr. |
| | Ffordd yr C3052 – Mesur-y-dorth i Fferm Penysgwarne | | O'r gyffordd â ffordd yr A487 i'r de am 30 metr |
| | | | |

**ATODLEN 3**
**TERFYN CYFLYMDER O 50 MYA**

| Cyf. | Lleoliad a Ffordd | | Hyd y ffordd |
|---|---|---|---|
| | | | |
| **3.01.0** | **HUNDLETON** | | |
| | Ffordd y B4320 Hundleton i'w chyffordd â ffordd yr C3101 Wallaston Green | | O'r gyffordd â ffordd yr C3183 o Hundleton i bwynt 175 metr i'r dwyrain o'i chyffordd â ffordd yr C3101 i Wallaston Cross. |
| | Ffordd yr C3183 | | O bwynt 80 metr i'r gogledd-orllewin o'r gyffordd â ffordd yr C3033, sy'n ymestyn i'r gorllewin i'r gyffordd â ffordd y B4320 o Hundleton. |
| | Ffordd yr C3003 – Redford Hill | | O linell ganol y gyffordd â ffordd y B4320, gan ymestyn am 30 metr i'r de-orllewin. |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| **3.02.0** | **PENNY BRIDGE** | | |
| | Ffordd yr A4075 – Holyland Road i gefnffordd yr A477 | | O bwynt 108 metr i'r dwyrain o'r gyffordd ag East Lane trwodd i bwynt 225 metr i'r gorllewin o'r gyffordd â chefnffordd yr A477 ym Mynegbost Nash. |
| | Golden Lane | | O'r gyffordd â ffordd yr A4075 i bwynt 60 metr i'r gogledd-orllewin. |
| | Dill Road | | O'r gyffordd â ffordd yr A4075 i bwynt 30 metr i'r dwyrain. |

5. Bydd gweddill Gorchymyn Cyfuno (Ffyrdd Amrywiol) (Terfynau Cyflymder) Sir Benfro 2023 yn parhau mewn grym ac effaith lawn.

Rhoddwyd o dan Sêl Gyffredin Cyngor Sir Penfro

Y XXXXfed diwrnod o XXXX 2025

**Gosodwyd SÊL GYFFREDIN**
**CYNGOR SIR PENFRO**
**yma**
**ym mhresenoldeb:-**

Llofnodwr Awdurdodedig

DRAFT